

**Deddf Cynllunio 2008 – Adran 92 a Rheolau Cynllunio Seilwaith
(Gweithdrefnau Archwilio) 2010 – Rheol 14**

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu
ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet**

Agenda a threfniadau ar gyfer y Gwrandawriad Caffael Gorfodol

Yn ei lythyr dyddiedig 27 Mawrth 2023, rhoddodd yr Awdurdod Archwilio (ExA) wybod i Bartïon â Buddiant (IP) am ei benderfyniad i gynnal Gwrandawriad Caffael Gorfodol (CAH) ynglŷn â'r mater uchod. Fe'i cynhelir fel digwyddiad cyfunol ar y dyddiad canlynol:

Gwrandawriad	Dyddiad ac Amser	Lleoliad
Gwrandawriad Caffael Gorfodol	Dydd Mercher 7 Mehefin 2023 (Amser dechrau'r cyfarfod 10.00am ¹) Amser dechrau'r Gynhadledd Drefniadau: 9.30am ²	Digwyddiad Cyfunol Gwesty'r Village, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3YB a Chyfarfod Rhithwir trwy Microsoft Teams

Mynychwyr: Partïon a wahoddwyd sydd wedi cofrestru o flaen llaw

(Bydd y Gwrandawriad hwn ar gael i bobl ei arsylwi'n fyw ar-lein hefyd trwy ddolen a fydd yn cael ei hysbysebu ar dudalen y prosiect ar y wefan Seilwaith Cenedlaethol yn fuan cyn i'r Gwrandawriad ddechrau)

CAH

Mae'r CAH yn cael ei gynnal er mwyn i'r ExA archwilio achos yr Ymgeisydd dros Gaffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP) ac i wahodd Unigolion yr Effeithir Arnynt a'r Ymgeisydd i wneud sylwadau llafar ynglŷn â'r materion hynny.

Bydd y Gwrandawriad yn ddigwyddiad cyfunol, a'r prif ddull o'i gynnal fydd wyneb yn wyneb yn y lleoliad a nodwyd uchod. Caiff cyfranogwyr ymuno ar-lein os dymunant gan ddefnyddio platform Microsoft Teams. Fodd bynnag, os hoffech gymryd rhan yn y CAH hwn yn rhithwir, gweler y wybodaeth isod am gofrestru i siarad cyn y CAH er mwyn i wahoddiadau ymuno gael eu hanfon. Os hoffech arsylwi yn unig, caiff arsylwyr fynychu'n bersonol neu wyllo o bell trwy'r ffrwd fyw o'r digwyddiad, y bydd y ddolen ar ei chyfer yn cael ei chyhoeddi ar dudalen y prosiect ar y wefan Seilwaith

¹ Bydd cyfarwyddiadau llawn ar sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu rhoi cyn y cyfarfod i'r rhai sy'n cofrestru i gymryd rhan.

² Os byddwch yn ymuno fel cyfranogwr gweithredol, dilynwch y cyfarwyddiadau ymuno ar gyfer y digwyddiad rhithwir yn ofalus a chysylltwch â'r Gwrandawriad mewn da bryd. Yn yr un modd â Gwrandawriadau traddodiadol, bydd y digwyddiad yn dechrau'n brydlon ni waeth os bydd rhywrai'n hwyr, ac efallai na fydd modd iddynt gael mynediad o ganlyniad.

Cenedlaethol ar ddiwrnod y Gwrandawriad. Ni fydd yr ExA yn derbyn sylwadau yn y CAH ar ffurf recordiadau fideo neu sain.

Bydd y digwyddiad rhithwir yn agor 30 munud cyn i'r CAH ddechrau i'w alluogi i ddechrau'n brydlon. Bydd y CAH yn gorffen cyn gynted ag y bydd yr ExA yn ystyried bod pawb sy'n bresennol wedi lleisio'u barn a bod yr holl faterion wedi derbyn sylw.

Diben yr agenda yw rhoi arweiniad yn unig. Ni fwriedir iddi fod yn gyfyngol nac yn hollgynhwysfawr. Caiff yr ExA ychwanegu materion eraill i'w hystyried neu newid y drefn yr ystyrir materion, a bydd yn ceisio neilltuo digon o amser i bob mater i ganiatáu iddo gael ei ystyried yn briodol. Os na fydd mater penodol yn cael ei drafod mewn gwrandawriad, nid yw hynny'n atal archwilio'r mater hwn ymhellach, gan gynnwys gofyn am gwestiynau ysgrifenedig ychwanegol.

Yn amodol ar bŵer yr ExA i reoli'r ffordd y cynhelir y CAH, bydd yn gwahodd partïon perthnasol i wneud cyflwyniad llafar ar yr adeg briodol yn yr agenda. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y materion yn cael eu trafod ar y diwrnod a drefnwyd. Os bydd yn cymryd llai o amser na'r disgwyl i ystyried y materion hyn, caiff yr ExA derfynu'r CAH cyn gynted ag y bydd yr holl gyfraniadau perthnasol wedi cael eu gwneud a'r holl gwestiynau wedi cael eu gofyn a derbyn ymateb.

Os oes materion ychwanegol i'w hystyried neu gyflwyniadau sy'n cymryd cryn dipyn o amser, efallai y bydd angen i'r sesiwn barhau'n hirach ar y diwrnod. Fel arall, efallai y bydd angen blaenoriaethu materion a gohirio rhai eraill i dderbyn sylw trwy gwestiynau ysgrifenedig ychwanegol.

Rhoddir gwybodaeth ychwanegol am sut i gymryd rhan yn y CAH a manylion ynglŷn â'r Gynhadledd Drefniadau yn Nodyn Cyngor 8.6:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/nodyn-cyngor-8-6-digwyddiadau-archwilio-rhithwir/>

Mynychwyr:

Mae'r partïon canlynol wedi nodi eu bod yn dymuno gwneud cyflwyniad llafar neu'n cael eu gwahodd i gymryd rhan gan yr ExA:

- Yr Ymgeisydd;
- Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd;
- Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer;
- Asiantaeth yr Amgylchedd;
- Cyngor Sir y Fflint;
- National Highways;
- Network Rail;
- Peel NRE;
- Stephens Scown ar ran S a C Oultram;
- Travelodge UK.

Os hoffech arsylwi'r CAH wrth iddo ddigwydd, gallwch weld ffrwd fyw gyhoeddus ar dudalen y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol³. I'r rhai hynny sy'n dewis arsylwi'r CAH yn hwyrach, ar ôl i'r Digwyddiad ddod i ben, bydd recordiad digidol o'r digwyddiad ar gael cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Caiff hwn ei gyhoeddi ar dudalen y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol hefyd⁴. Dylai unrhyw IPs sy'n dymuno ymateb i unrhyw faterion sy'n codi wrth arsylwi'r CAH (wrth iddo ddigwydd neu fel arall) wneud hynny'n ysgrifenedig erbyn Terfyn Amser 4 (dydd Mawrth 20 Mehefin 2023).

Sylwer: Er mwyn sicrhau bod yr agenda'n cael ei chyhoeddi'n brydlon, cafodd ei llunio'n fuan ar ôl derbyn cyflwyniadau Terfyn Amser 2 (10 Mai 2023). O ganlyniad, efallai y bydd angen i'r ExA addasu'r agenda yn y cyfarfod i ganiatáu ar gyfer ymatebion neu gyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd ar ôl y terfyn amser hwn.

³ <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/hynet-carbon-dioxide-pipeline/>

⁴ Ibid.

Agenda Ddrafft

1. Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawriad

Bydd yr ExA yn croesawu'r cyfranogwyr, yn arwain cyflwyniadau, ac yn mynd trwy rai materion gweithdrefnol.

Bydd y ffrwd fyw gyhoeddus a'r recordio yn dechrau.

2. Achos yr Ymgeisydd dros CA a TP

Bydd yr ExA yn gwahodd yr Ymgeisydd i gymryd hyd at 20 munud i roi trosolwg o'r canlynol:

- ei ymagwedd gyffredinol at CA a TP yng nghyd-destun y profion perthnasol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a Chanllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG)⁵.
- diben, strwythur a chynnwys y Llyfr Cyfeirio (BoR), y Datganiad o'r Rhesymau (SoR) a'r Datganiad Cyllid.
- y pwerau a geisir a'r achos cyffredinol dros eu rhoi.

Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

3. Gwrthwynebiadau, materion a chytundebau gwirfoddol unigol

Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (CWCC)

Wrth ymateb i Gwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr ExA (ExQ1), mae CWCC yn datgan:

- bod tir yr effeithir arno'n cael ei asesu a bydd ymateb yn cael ei roi o fewn terfyn amser hwyrach cyn gynted ag y daw gwybodaeth ychwanegol ar gael; a
- phrin yw'r cysylltiad y mae'r Cyngor wedi'i gael gan yr Ymgeisydd ynglŷn â chaffael tir. Mae'r Cyngor yn neilltuo ei safbwynt ar hyn.

a) Bydd yr ExA yn gwahodd **CWCC** neu ei gynrychiolwyr, os ydynt yn bresennol, i wneud cyflwyniad llafar ynglŷn â thir o fewn ei reolaeth sy'n destun CA/ TP arfaethedig. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

b) Gwahoddir yr **Ymgeisydd** i ymateb. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

Cyngor Sir y Fflint (FCC)

⁵ Deddf Cynllunio 2008, Canllawiau yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer caffael tir yn orfodol, DCLG, mis Medi 2013.

Prin yw'r ymateb a roddwyd gan FCC ynglŷn â CA/ TP tir, ond dywedodd mewn RR [RR-034] ei fod yn ceisio eglurhad cyffredinol ynglŷn â'r "...effaith bosibl ar reoli tir enwebedig y Cyngor Sir y mae'r cynllun arfaethedig yn effeithio arno..."

- a) Bydd yr ExA yn gwahodd FCC neu ei gynrychiolwyr, os ydynt yn bresennol, fel IP sydd â buddiannau tir y mae'r cais hwn am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) arfaethedig yn effeithio arnynt, i wneud cyflwyniad llafar ynglŷn â thir o fewn ei reolaeth sy'n destun CA/ TP arfaethedig. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.
- b) Gwahoddir yr **Ymgeisydd** i ymateb. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd – Lleiniau 8-03 a 9-06

- a) Bydd yr ExA yn gwahodd yr **Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd** neu ei chynrychiolwyr, os ydynt yn bresennol, i wneud cyflwyniad llafar. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.
- b) Gwahoddir yr **Ymgeisydd** i ymateb. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

Asiantaeth yr Amgylchedd – Lleiniau 6-02; 6-03; 6-10; a 6-11; ac

Mae'r ExA yn nodi bod Asiantaeth yr Amgylchedd (EA), yn ei hymateb i ExQ1, wedi ceisio eglurhad ynglŷn â pham y'i nodwyd fel 'meddiannydd neu feddiannydd honedig' yn y BoR [APP-030] ar gyfer lleiniau 1- 04; 1-06; 1-07; 1-21; 1-25; 2-01; 3-14; 3-15; 3-17; 4-07; 4-10; 4-13; 5-14; 5-16; 5-24; 5-25; 5-26; 6-07; 6-14; 6-17; 6-19; 6-23; 9-16; 9- 17; a 12-10; a

- a) Bydd yr ExA yn gwahodd yr EA neu ei chynrychiolwyr, os ydynt yn bresennol, i wneud cyflwyniad llafar. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.
- b) Gwahoddir yr Ymgeisydd i ymateb. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

National Highways – Lleiniau 5-06, 5-09 a 7-05

Mae'r ExA yn nodi gwrthwynebiad National Highways, yn enwedig mewn perthynas â:

- Diogelu buddiannau National Highways a diogelwch a chyfanrwydd y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (yr M53 a'r M56).
- Cynnwys y Lleiniau yn y Gorchymyn a rhoi Pwerau Gorfodol mewn perthynas â nhw.
- Pwerau gorfodol eraill yn y Gorchymyn sy'n effeithio ar eiddo a buddiannau National Highways, ac y gellid eu harfer mewn perthynas â nhw.

- a) Bydd yr ExA yn gwahodd National Highways neu ei gynrychiolwyr, os ydynt yn bresennol, i wneud cyflwyniad llafar. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

b) Gwahoddir yr Ymgeisydd i ymateb. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

Network Rail – Lleiniau 1-23; 9-21; 9-24; 9-25; 14-24; 14-29; 17-12; 19-04 a 19-04c

Mae Network Rail yn dweud ei fod yn gwrthwynebu'r pwerau a gynhwysir yn Erthyglau 19 (Gollwng dŵr), 21 (Awdurdod i arolygu ac ymchwilio'r tir), 22 (Gwaith amddiffynnol ar adeiladau), 24 (CA tir), 26 (CA hawliau a chyfamodau cyfyngol), 27 (Awdurdod statudol i drechu hawddfreintiau a hawliau eraill), 28 (CA tir: mwynau), 29 (Hawliau preifat), 31 (Caffael isbridd neu ofod awyr yn unig), 33 (Hawliau o dan neu dros strydoedd), 34 (Defnydd dros dro o dir i gynnal y datblygiad awdurdodedig), 35 (Defnydd dros dro o dir i gynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig) a 39 (Cwmpo neu docio coed a chael gwared ar wrychoedd) y DCO drafft sy'n awdurdodi'r Hyrwyddwr i gaffael hawliau mewn neu dros dir yn orfodol, neu ddefnyddio tir dros dro, sy'n ffurfio rhan o dir rheilffordd weithredol Network Rail ac y mae Network Rail yn dibynnu arno i gynnal ei ymgymriad statudol.

a) Bydd yr ExA yn gwahodd Network Rail neu ei gynrychiolwyr, os ydynt yn bresennol, i wneud cyflwyniad llafar. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

b) Gwahoddir yr Ymgeisydd i ymateb. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

Turley ar ran Peel NRE – Lleiniau 1-01, 1-03, 1-04, 1-05, 1-06, 1-08, 1-09, 1-10, 1-11, 1-12, 1-13, 1-14, 1-15, 1-16, 1-17, 1-18, ac 1-19.

Mae'r ExA yn nodi gwrthwynebiad Peel NRE i'r cynnig presennol, fel y'i crynhoir isod:

- caffael yn barhaol a chwantwm y tir sydd wedi'i gynnwys yn y coridor 24.4m hwn.
- bydd y caffaeliadau arfaethedig yn cyfyngu'n ddifrifol ar ddatblygu tir yn y dyfodol gan Peel NRE, nid yn unig yn ystod adeiladu'r Biblinell ond drwy gydol ei hoes weithredu.

Deöllir hefyd fod trafodaethau'n parhau er mwyn ceisio cytuno ar safbwynt sy'n dderbyniol i'r ddau barti, ond nid yw'r mater wedi'i ddatrys hyd yma.

a) Bydd yr ExA yn gwahodd Peel NRE neu ei gynrychiolwyr, os ydynt yn bresennol, i wneud cyflwyniad llafar. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

b) Gwahoddir yr Ymgeisydd i ymateb. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

Carter Jonas ar ran Travelodge UK – Llain 19-06

Mae'r ExA yn nodi'r cais i siarad.

- a) Bydd yr ExA yn gwahodd Travelodge neu ei gynrychiolwyr, os ydynt yn bresennol, i wneud cyflwyniad llafar. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.
- b) Gwahoddir yr Ymgeisydd i ymateb. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

Stephens Scown ar ran S c C Oultram – Lleiniau 18-03 to 18-21, 18-25, 18-26, 19-04, 19-04a a 19-04b.

Mae'r ExA yn nodi'r cais i siarad ynglŷn â'r lleiniau a grybwyllir uchod.

- a) Bydd yr ExA yn gwahodd S a C Oultram neu eu cynrychiolwyr, os ydynt yn bresennol, i wneud cyflwyniad llafar. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.
- b) Gwahoddir yr Ymgeisydd i ymateb. Caiff yr ExA ofyn cwestiynau.

4. Y BoR, y SoR, Cynlluniau Tir, Ymholiadau Diwyd a Diweddariadau

Diweddariad i'r BoR/ Rhestr CA

Darparodd yr Ymgeisydd Restr CA a TP [REP1-049] erbyn Terfyn Amser 1 a Rhestr Trafodaethau â Buddiannau Tir [REP2-010] erbyn Terfyn Amser 2. Mae'r dogfennau hyn yn amlinellu cynnydd trafodaethau ynglŷn â CA a TP, cytundebau gwirfoddol, gwrthwynebiadau a malltod.

A wnaiff yr Ymgeisydd grynhoi'r cynnydd a wnaed yn ystod yr Archwiliad a'r cynnydd a ddisgwylir yn ystod gweddill yr Archwiliad? Pa gynnydd a wnaed lle y gwrthwynebir caffael hawliau?

A wnaiff yr Ymgeisydd amlinellu lle na fu'n gallu gwneud cynnydd mewn trafodaethau â phartïon hysbys? Pa gamau a fydd yn cael eu cymryd yn ystod yr Archwiliad?

A wnaiff yr Ymgeisydd grynhoi'r camau a fydd yn cael eu cymryd i adnabod unrhyw bartïon neu fuddiannau anhysbys yn ystod yr Archwiliad?

Caiff yr ExA ofyn mwy o gwestiynau neu wahodd mwy o gyflwyniadau llafar.

Ymholiadau diwyd

Amlinellodd ymateb yr Ymgeisydd i ExQ1 [REP1-044] yn Q1.6.4 ei ymagwedd at adnabod "Perchnogaeth Anhysbys". Gofynnir i'r Ymgeisydd roi unrhyw ddiweddariad ychwanegol ynglŷn â hyn.

Mae'r BoR [REP2-014] yn cyfeirio at "Berchennog/Perchnogion Rhydd-ddaliadol neu Honedig", "Lesddeiliaid neu Denantiaid neu Lesddeiliaid neu Denantiaid Honedig" a "Meddianwyr neu Feddianwyr Honedig", ond nid yw'n gwahaniaethu rhwng y termau hyn yn y BoR. A wnaiff yr Ymgeisydd amlinellu pa gamau a gymerwyd/ a fydd yn cael eu cymryd i gadarnhau'n bendant perchnogaeth, lesddeiliaid/ tenantiaid neu feddianwyr yr adeiladau hynny yr amlygwyd partïon "honedig" ar eu cyfer?

Caiff yr ExA ofyn mwy o gwestiynau neu wahodd mwy o gyflwyniadau llafar.

5. Sut y Bwriedir Defnyddio'r Tir, p'un a Archwiliwyd Dewisiadau Amgen Rhesymol a ph'un a yw'r Hawliau a Geisir yn Ddilys, yn Gymesur ac yn Angenrheidiol

Hyblygrwydd

Mae dylunio manwl yn amlwg yn agwedd barhaus o'r Datblygiad Arfaethedig, ac mae'r Ymgeisydd yn cynghori bod nifer o fanylion dylunio nad ydynt eto wedi'u cwblhau'n derfynol ar gyfer y Datblygiad DCO Arfaethedig ac na fyddant yn cael eu cwblhau'n derfynol hyd nes bod y dyluniad manwl yn cael ei gynhyrchu ar ôl cael caniatâd. Mae angen i'r ExA fod yn sicr bod yr hawliau a ganiateir gan y DCO yn ddilys, yn gymesur ac yn angenrheidiol. O ystyried hyn, beth yw'r posibilrwydd o leihau'r tir a'r hawliau y cynigir eu caffael yn ystod y cam dylunio manwl a sut bwriedir cysylltu â phartion yr effeithir arnynt yn hynny o beth?

A wnaiff yr Ymgeisydd wneud sylwadau ar yr angen am broses i ystyried hawliau dynol i'w sicrhau yn ystod y cam dylunio manwl? Os na sicrheir proses briodol, sut gall yr ExA fod yn fodlon y byddai'r hawliau a ganiateir gan y DCO yn ddilys, yn gymesur ac yn angenrheidiol?

Caiff yr ExA ofyn mwy o gwestiynau neu wahodd mwy o gyflwyniadau llafar.

6. Buddiannau'r Goron, Ymgymmerwyr Statudol, Tir Categori Arbennig, Iawndal, Cyllid a Materion Eraill

Buddiannau'r Goron

Dywedodd ymateb yr Ymgeisydd i ExQ1 [REP1-044] (Q1.6.16):

- i) "Mae cyfathrebu wedi dechrau gydag Ystad y Goron, [yr Adran Drafnidiaeth, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Llywodraeth Cymru] ... a gofyn am gynnydd trafodaethau yn arwain at ganiatâd. O ystyried yr effaith gyfyngedig ar hawliau'r Goron, disgwylir i'r caniatâd gael ei roi."*
- ii) "Mae trafodaethau wedi bod yn parhau gyda Gweinidogion Cymru ers mis Mai 2022. Mae Penawdau'r Telerau wedi cael eu cyhoeddi, ac mae trafodaethau'n parhau."*

A wnaiff yr Ymgeisydd roi diweddariad?

Mae'r Ymgeisydd wedi nodi yn y BoR [REP2-012] bod Llain 17-02 yn Dir Categori Arbennig, gan ei fod yn Fan Agored, ond nid oes angen darparu tir cyfnewid, fel yr esbonnir yn y SoR [REP2-008]. A all yr Ymgeisydd gadarnhau mai llain 17-02 yw'r unig Dir Categori Arbennig y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio arno a'i fod yn parhau i ystyried nad oes angen tir cyfnewid? Cadarnhewch y rheswm/ rhesymau dros y safbwynt hwnnw.

Caiff yr ExA ofyn mwy o gwestiynau neu wahodd mwy o gyflwyniadau llafar.

7. Unrhyw faterion CA neu TP eraill

Os bydd amser, ac yn ôl ei ddisgresiwn, caiff yr ExA wahodd cyflwyniadau llafar eraill ar faterion CA neu TP.

8. Unrhyw Fater Arall a Chau'r CAH

Os bydd amser, ac yn ôl ei ddisgresiwn, caiff yr ExA wahodd cyflwyniadau llafar eraill ar unrhyw fater arall yn ymwneud â materion CA neu TP.

Diwedd y CAH.